OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 348 (Cy. 37)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llandinam, Powys) (Terfynau Cyflymder 30 MYA a 40 MYA) 2014

*Gwnaed* *11 Chwefror 2014*

*Yn dod i rym* *19 Chwefror 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abertawe i Lan Conwy (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984[1] a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Chwefror 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llandinam, Powys) (Terfynau Cyflymder 30 MYA a 40 MYA) 2014.

### Cyfyngiadau

**2.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

### Dirymu

**4.** Mae Gorchymyn y Gefnffordd (A470) (Llandinam, Powys) (Terfynau Cyflymder 40 MYA) 1984[2] drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 11 Chwefror 2014

*R Morgan*

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; diwygiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(2)** O.S. 1984/690

## YR ATODLENNI

### Darnau o Gefnffordd yr A470 yn Llandinam ym Mhowys.

### ATODLEN 1

### Terfyn Cyflymder 30 MYA

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de o bwynt sy'n 20 metr i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2022 (Pont Llandinam) hyd at bwynt sy'n 62 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r U4527.

### ATODLEN 2

### Terfyn Cyflymder 40 MYA

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de o bwynt sy'n 11 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r C2157 hyd at bwynt sy'n 20 metr i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2022 (Pont Llandinam).

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de o bwynt sy'n 62 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r U4527 hyd at bwynt sy'n 179 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r U4525.